# Y Pwyllgor Adfywio a Chyfiawnder Cymdeithasol

## Cofnodion (SJR(2)-10-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 21 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.25pm
### Lleoliad y cyfarfod: Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau’r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogmore |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Laura Ann Jones | Dwyrain De Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Eraill Wrth Law

| **Enw** | **Yn cynrychioli (os yn berthnasol)** | **Eitemau ar yr agenda** |
|---|---|---|
| Tom Barham | Dangerpoint | 4 |
| Barry Harrison | Dangerpoint | 4 |
| Simon Smith | Dangerpoint | 4 |

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Enw'r swydd** |
|---|---|
| Virginia Hawkins | Clerc Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datganiadau o Ddiddordeb

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd y Clerc Pwyllgor newydd, Virginia Hawkins i'r Pwyllgor.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb

1.4 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papurau: SJR(2)-09-06 (min)

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 8 Mehefin 2006.

### Eitem 3: Adolygu Polisi: Ailstrwythuro'r Heddlu – Strwythurau Democrataidd

Papur: SJR(2)-10-06(tud.1) Atodiad

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad. Trafodwyd y Bennod Casgliadau ac Argymhellion ac yn amodol ar nifer o newidiadau bydd yn cael ei adolygu a'i ddosbarthu i Aelodau er mwyn cytuno arno.

### Camau Gweithredu:

Yr Ysgrifenyddiaeth i adolygu Pennod 3 – Casgliadau ac Argymhellion – yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd a bydd yn cael ei ddosbarthu i Aelodau er mwyn cytuno arno.

### Eitem 4: Adolygu Polisi: Camddefnyddio Sylweddau - Atal

Papur: SJR(2)-10-06(tud.2)

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ynglyn â'r gwaith a wnaed gan Dangerpoint ynglyn â chamddefnyddio sylweddau. Hefyd bu'r sefydliad yn crybwyll materion eraill a drafodwyd yn y ganolfan yn Nhalacre,

Gogledd Cymru. Dywedodd y Cadeirydd y byddai eu tystiolaeth ynglyn â chamddefnyddio sylweddau yn cael ei defnyddio i lunio adroddiad y Pwyllgor.